

CYPE(6)-01-22 - Papur i'w nodi 9

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Prif Weithredwyr

Prif Gynghorau Cymru

17 Rhagfyr 2021

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddPlant@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddPlant

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddChildren@senedd.wales

senedd.wales/SeneddChildren

0300 200 6565

Presenoldeb disgyblion a hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion

Annwyl Brif Weithredwr,

Gwnaethom graffu ar adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2020-21 ar **13 Rhagfyr 2021**. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth hon, cododd Estyn ddau fater pwysig yr hoffem eu trafod â chi.

Presenoldeb disgyblion

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **ystadegau presenoldeb wythnosol**, ond nid yw rhai grwpiau o blant y mae'r pandemig wedi effeithio'n arbennig o andwyol ar eu presenoldeb wedi'u cynnwys yn y data hyn.

A fyddech cystal â darparu:

- gwybodaeth am sut rydych chi'n gweithio gydag ysgolion i fonitro a gwella presenoldeb disgyblion nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol ers y ddau gyfnod pan roedd ysgolion ar gau yn gyffredinol, disgyblion sydd wedi dychwelyd ar sail gyfyngedig iawn a disgyblion sydd wedi bod yn absennol yn rheolaidd/yn barhaus; ac
- unrhyw ddata sydd gennych ynghylch nifer y disgyblion hyn yn ogystal â'u cyfraddau absenoldeb.

Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion

Hefyd, clywsom gan Estyn am y gefnogaeth y maent yn ei darparu i lywodraethwyr ysgolion, gan gynnwys y rhaglen arolygwyr lleyg, sy'n galluogi llywodraethwyr ysgolion i hyfforddi fel arolygwyr lleyg er mwyn iddynt gael mewnwelediad i sut y mae Estyn yn cynnal ei werthusiadau o ysgolion.



A allwch chi roi gwybodaeth i ni am y gefnogaeth rydych chi'n ei darparu i lywodraethwyr ysgolion, gan gynnwys sut rydych chi'n annog llywodraethwyr ysgol i ddilyn rhaglen hyfforddi arolygwyr lleyg Estyn?

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb gennych erbyn dydd Iau 20 Ionawr 2022 fan bellaf, i'n galluogi i'w drafod yn ein cyfarfod yr wythnos ganlynol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau uchod, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor ([**SeneddPlant@Senedd.Cymru**](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)).

Yn gywir,



Jayne Bryant

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.